

Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd
		4



Lefel Mynediad

736/51

MATHEMATEG PAPUR TERFYNOL

A.M. DYDD MAWRTH, 11 Mawrth 2008

1¼ awr

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen:

- cyfrifiannell;
- pren mesur.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag a ddarperir yn y llyfryn hwn.

Rhaid dangos pob gwaith cyfrifo.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

I'r Arholwr yn unig	
Tudalennau	Cyfanswm marciau'r tudalennau dwbl
2, 3	
4, 5	
6, 7	
8, 9	
10, 11	
12, 13	
14, 15	
16, 17	
18, 19	
20	
CYFANSWM	

3. Y nifer oedd yn bresennol mewn gêm yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd yn ddiweddar oedd 63 497.

(a) Ysgrifennwch y rhif hwn i'r **1000** agosaf.


Ateb:

(b) Ysgrifennwch y rhif hwn i'r **100** agosaf.

Ateb:

[2]

4. Pa ffracsiwn o'r diagram isod sydd wedi'i dywyllu?



Ateb:

[1]

5.

17 8 45 31 23 51

Gan ddefnyddio rhifau o'r **rhestr uchod yn unig**, ysgrifennwch

(a) dau rif sy'n **adio i fyny** i **40**,

Ateb: a

(b) rhif sydd yn **lluosrif** (*multiple*) o 5.

Ateb:

[2]

6. Mae 24 pêl mewn bag.

Mae **chwarter** ($\frac{1}{4}$) o'r peli yn cael eu tynnu allan o'r bag.

Sawl pêl sydd **ar ôl** yn y bag?

.....

.....

Ateb:

[2]

7. Mae platiau cinio yn costio £15 yr un.
Sawl plât cinio mae'n bosibl ei brynu gyda £80?

.....
.....

Ateb:

[2]

8. Ysgrifennwch y ddau rif nesaf ym **mhob un** o'r patrymau rhif isod.

(a) 1, 3, 5, 7, 9,

(b) 1, 2, 4, 7, 11, 16,

[2]

9. Ysgrifennwch $\frac{1}{4}$ fel degolyn.

Ateb:

Ysgrifennwch 20% fel degolyn.

Ateb:

Ysgrifennwch $\frac{1}{4}$, 20% a 0.23 yn ôl trefn eu maint, gan ddechrau gyda'r un **lleiaf**.

Ateb: (**lleiaf**),,, (**mwyaf**)


[3]

10. Cwblhewch y bil hwn.

3 blwch bwydo adar am £1.70 yr un	£
0.5 kg o hadau i adar am £6.24 y kg.	£
Cyfanswm:	£

[3]

11. Dyma beiriant rhif:



Enghraifft: Os yw'r **RHIF I MEWN** yn 4, y **RHIF ALLAN** yw 18.

Nawr atebwch y cwestiynau canlynol:

(a) Os yw'r **RHIF I MEWN** yn 1, beth yw'r **RHIF ALLAN**?

.....

Ateb:

(b) Os yw'r **RHIF I MEWN** yn 0, beth yw'r **RHIF ALLAN**?

.....

Ateb:

(c) Os yw'r **RHIF ALLAN** yn 0, beth yw'r **RHIF I MEWN**?



.....

Ateb:

[3]

12. Ysgrifennwch y rhifau sydd ar goll yn y siapiau isod.

(a)  - 7 = 4

(b)  ×  = 16

[2]

13. (a) Mae George yn byw 5 milltir yn **bellach** o'r ysgol nag Aled.
Mae George yn byw 7 milltir o'r ysgol.
Pa mor bell o'r ysgol mae Aled yn byw?

Ateb:

(b) Mae Jean yn 12 oed heddiw ac mae **ddwywaith** yn hŷn na'i chwaer Kate.
Faint fydd oed Kate mewn 5 mlynedd?

Ateb:

[2]



14. Mesurodd Ajay ei daldra yn 1.98 ond anghofiodd nodi'r unedau a ddefnyddiodd.

Ysgrifennwch a ddylai'r unedau fod yn filimetrau (mm) **neu** gentimetrau (cm) **neu** fetrau (m).

Ateb:

[1]

15. Rhowch bob llinell cymesuredd (*symmetry*) ym mhob un o'r diagramau isod.



[2]

16. Newidiwch yr amseroedd canlynol o amser 24 awr i amseroedd a.m. neu p.m.

(a) 13 25 awr


(b) 07 42 awr

Ateb: (a)


(b)

[2]


17.




A



B



C



D

Cwblhewch bob un o'r gosodiadau isod.


Mae **ongl lem** yn diagram

Mae **ongl sgwâr** yn diagram

Mae **ongl aflem** yn diagram

[3]

18. Mae'r diagram isod yn dangos bloc solid sydd â siâp **ciwb**.



(a) Sawl **cornel** sydd gan giwb?

Ateb:

(b) Sawl **ymyl** sydd gan giwb?

Ateb:

(c) Sawl **wyneb** sydd gan giwb?

Ateb:


(ch) Pa **siâp** sydd i **wyneb** ciwb?

Ateb:

[4]


19. Mae'r diagramau yn dangos rhannau o raddfeydd (*scales*) sy'n cael eu defnyddio ar wahanol brennau mesur neu dapiau mesur i fesur hyd. Ym mhob diagram mae'r saeth yn pwyntio at yr hyd sydd i'w gofnodi am bob diagram. **Dangoswch yr unedau** sy'n cael eu defnyddio ym mhob diagram.

(a)




Ateb:

(b)



Ateb:


(c)



Ateb:

[3]

20.



Mae pob ongl yn y siâp uchod yn ongl sgwâr.

(a) Darganfyddwch **hyd**

(i) HG ,

Ateb:

(ii) DE .

Ateb:


(b) Darganfyddwch **berimedr** y siâp.

.....

Ateb:

[3]

21. Mae taldra Ryan wedi cael ei fesur bob blwyddyn ar ei benblwydd, gan ddechrau pan oedd yn 11 oed. Mae'r mesuriadau wedi eu cofnodi ar y siart isod.



- (a) Ysgrifennwch daldra Ryan ar ei benblwydd yn 13 oed.

Ateb: cm.

- (b) Ysgrifennwch oed Ryan pan oedd ei daldra yn 125 cm.

Ateb: blwydd oed.

- (c) Mae un o'r mesuriadau wedi'i gofnodi'n anghywir. Tynnwch gylch o gwmpas y pwynt sy wedi'i gofnodi'n anghywir ar y siart **ac yna** rhowch amcangyfrif (*estimate*) ar gyfer beth rydych chi'n feddwl y dylai taldra Ryan fod am yr oedran hwnnw.

Ateb: Dylai taldra Ryan fod yn cm.

[4]

Trosodd.

22. Mae'n rhaid dewis pwyllgor o **dri (3)** i'r clwb ieuenctid o'r rhestrau canlynol.

<u>Bechgyn</u>	<u>Merched</u>
Adrian (A)	Dawn (D)
Bob (B)	Enid (E)
Craig (C)	

Rhaid cael **o leiaf 1 bachgen** ac **o leiaf 1 ferch** ar y pwyllgor.

Dyma un ffordd sy'n bosibl i ffurfio'r pwyllgor:

ABD

Nawr gwnewch restr o'r **holl** ffyrdd sy'n bosibl i ffurfio'r pwyllgor.

.....

.....

.....

[2]

23. Nodwch a yw'r pethau hyn

yn mynd i ddigwydd,
yn gallu digwydd,
neu **ddim** yn mynd i ddigwydd.

(a) Bydd yn bwrw glaw rhywle yn y byd yfory.

Ateb:


(b) Bydd yn bwrw glaw ym Manceinion ddydd Sadwrn nesaf.

Ateb:

[2]

TUDALEN WAG

24. Mae Gwyn yn gweithio mewn swyddfa sydd dipyn o ffordd o'i gartref.



Mae'r graff yn dangos taith Gwyn yn y car o'i swyddfa i'w gartref. Ar y daith arhosodd mewn caffi ar ochr y ffordd i gael pryd o fwyd.

Defnyddiwch y graff i ddarganfod

(a) pa mor bell yw'r swyddfa o gartref Gwyn,

Ateb:

(b) am faint arhosodd Gwyn yn y caffi ar ochr y ffordd,

Ateb:


(c) faint o'r gloch oedd hi pan gyrhaeddodd Gwyn gartref.

Ateb:


[3]

25. Mae dau (2) fag ac mae pob un ohonynt yn cynnwys **chwech (6)** o beli o liwiau gwahanol.

Mae bag A yn cynnwys 3 pêl lliw coch, 2 bêl lliw glas ac 1 bêl lliw du:



Mae bag B yn cynnwys 2 bêl lliw coch a 4 pêl lliw glas:



Mae pob bag wedi'i gymysgu'n dda.

Heb edrych, rydych chi'n tynnu **un (1)** bêl o bob bag.

- (a) O ba fag rydych chi'n **fwyaf tebygol** o dynnu **pêl goch**?

Ateb: Bag

- (b) O ba fag mae'n **amhosibl** i chi dynnu **pêl lliw du**?


Ateb: Bag



[2]

26. Mae siop fach mewn pentref yn gwerthu dau fath o ysgrifbinnau (*pens*) – rhai “Ysgrifennu llawer” a rhai “Tynnu llun”.

Cafodd arolwg ei wneud i benderfynu pa un o’r ddau ysgrifbin oedd yr un mwyaf poblogaidd.

Mae’r canlyniadau wedi eu gosod ar ffurf graff bloc ond cafodd y manylion am ddydd Iau eu gadael allan.



Allwedd:  = **un (1)** ysgrifbin “Ysgrifennu llawer”,
 = **un (1)** ysgrifbin “Tynnu llun”.

- (a) Ar y dydd Iau cafodd 5 ysgrifbin “Ysgrifennu llawer” ac 1 ysgrifbin “Tynnu llun” eu gwerthu.
Cwblhewch y graff bloc.
- (b) Trwy edrych ar y graff, penderfynwch ar faint o ddyddiau y cafodd **mwy** o ysgrifbinnau “Tynnu llun” eu gwerthu nag o ysgrifbinnau “Ysgrifennu llawer”.

Ateb:



- (c) Ysgrifennwch faint o ysgrifbinnau “Ysgrifennu llawer” gafodd eu gwerthu yn ystod 5 diwrnod yr arolwg.

Ateb:

[3]

Trosodd.

27.

**SET A****SET B**

(a) Eglurwch pam byddai'n bosibl rhoi enw Michael yn **SET A**.

.....

.....

(b) Eglurwch pam byddai'n bosibl rhoi enw Martin yn **SET B**.

.....

.....

[2]